

Engage

Cymru

Digwyddiad Hyfforddi DPP Orielau Dementia-gyfeillgar Engage Cymru

Dydd Iau 19 Gorffennaf 2018, 10am - 4pm, Oriel Myrddin, Caerfyrddin

Dydd Gwener 20 Gorffennaf 2018, 10am - 4pm, Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe

Hyfforddiant datblygu proffesiynol un diwrnod llawn yw Orielau Dementia-gyfeillgar sydd wedi'i anelu at artistiaid, staff orielau ac unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu at gyflwyno gweithgareddau'n seiliedig ar y celfyddydau gweledol gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofaluwr. Caiff ei arwain gan arbenigwyr yn y maes a bydd yn cynnwys hyfforddiant Cyfeillion Dementia dan arweiniad Cymdeithas Alzheimer. Bydd hefyd yn cynnwys sesiwn dysgu a rhannu ddilydol yn yr hydref.

Ceir tystiolaeth gynyddol fod gan sefydliadau cymdeithasol a diwylliannol - mawr a bach - botensial i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofaluwr. Mae gan y celfyddydau gweledol ran sylweddol i'w chwarae yn y ffordd rydym ni'n gofalu am fywydau pobl a'u cyfoethogi wrth iddynt heneiddio, ac mae ymchwil newydd wedi arwain at ddatblygu llawlyfr i arwain artistiaid sy'n dymuno archwilio perthnasedd y celfyddydau gweledol mewn lleoliadau oriel.

Llawlyfr yr artistiaid - *Dementia & Imagination: Research Informed Approaches to Visual Arts Interventions* - yw sail yr hyfforddiant a gynigir gan Engage Cymru ac a hwylusir gan aelodau o'r tîm ymchwil hwn i edrych ar gynhwysion hanfodol, egwyddorion ac ymarfer i gyflwyno prosiectau diogel ac ysgogol yn seiliedig ar gelf i bobl sy'n byw gyda dementia. Dan arweiniad Dr Gill Windle o Brifysgol Bangor a Clive Parkinson o Arts for Health ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion gyda'r artistiaid Chris Lewis-Jones a Siân Hughes yn hwyluso, dyma gyfle unigryw i artistiaid fireinio a datblygu eu sgiliau yn yr ymarfer celfyddydau cymdeithasol pwysig hwn.

Cyfyngir y nifer i 15 yn Oriel Myrddin ddydd Iau 19 Gorffennaf. Ceir lle i ragor yn Oriel Glynn Vivian

Cost

Pris llawn: £35


Aelodau Sefydliadol Engage: £30

Aelodau Personol Engage: £25

Darllenwch ymhellach i gael manylion am gynnig aelodaeth arbennig i gael gostyngiad ar y cyfle hwn ac aelodaeth Engage

Dolen at y ffurflen archebu –

Engage
Cymru



ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Oriel
Myrddin
Gallery

GLYNN VIVIAN



**WESTERN POWER
DISTRIBUTION**
Serving the Midlands, South West and Wales
Gwasanaethu Canolbarth a De Orllewin Lloegr a Chymru

Cynnig arbennig: 15% o ostyngiad ar aelodaeth Engage i'r sawl sy'n dod i Oriolau Dementia-gyfeillgar

Gallwch gael pris gostyngol ar gyfer Oriolau Dementia-gyfeillgar a Chynhadledd Engage (Hydref 2018, Celf, Iechyd a Llesiant), a bod yn rhan o Engage Cymru a rhwydwaith cenedlaethol Engage.

Engage yw'r prif rwydwaith eiriolaeth a hyfforddi ar gyfer addysg oriolau. Rydym ni'n cefnogi addysgwyr yn y celfyddydau, sefydliadau ac artistiaid i weithio gyda chymunedau mewn modd dynamig, agored sy'n cynnig cyfle i bawb ddysgu a chael budd o'r celfyddydau.

Mae gan Engage Cymru dros 70 o aelodau, gan gynnwys addysgwyr oriel ac amgueddfa, athrawon, swyddogion awdurdodau lleol ac artistiaid. Fel cangen Cymru o Engage, mae Engage Cymru yn hyrwyddo addysg oriolau drwy eiriolaeth, cyfarfodydd grŵp ardal rheolaidd, digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant datblygu proffesiynol, a thrwy brosiectau ymchwil.

Dewch yn aelod o Engage a manteisio ar y newyddion diweddaraf o'r sector; adnoddau gwerthfawr; astudiaethau achos a phecynnau cymorth; digwyddiadau datblygu proffesiynol a rhwydweithio i lywio, rhannu ymarfer gorau a chynghor gyda chymheiriaid, a'ch helpu i gysylltu a rhwydweithio wrth i'ch gyrfa ddatblygu. Byddwch yn cael mynediad llawn at ein hadnoddau ar ein gwefan gan gynnwys Cyfnodolyn Engage, newyddion yn syth i'ch ebost, cyfarfodydd ardal am ddim a buddiannau arbennig fel gostyngiadau mewn 30+ o amgueddfeydd ac oriolau yn y DU, gostyngiadau ar hyfforddiant a datblygu proffesiynol a mynediad at swyddi a chyfleoedd.

Chi fydd y cyntaf i glywed am ein Cynhadledd Flynyddol, a gynhelir yn ystod hydref 2018 ym Manceinion ar bwnc Celf, Iechyd a Llesiant

Rydym ni'n cwblhau trefniadau ein cynhadledd fydd yn edrych ar **Gelf, Iechyd a Llesiant**. Aelodau Engage fydd y cyntaf i wybod pan gyhoeddir dyddiadau a byddant yn cael gostyngiadau sylweddol ar lefydd a newyddion am fwrsariaethau a chyfleoedd eraill.

Aelodaeth Bersonol: nawr £38 (fel arfer £45)

Aelodaeth Sefydliadol: Sengl - 1 aelod: **nawr £67** (fel arfer £79)
Safonol – hyd at 3 aelod: **nawr £129** (fel arfer £152)
Uwch – hyd at 5 aelod: **nawr £181** (fel arfer £214)

Peidiwch â cholli cyfle: ymunwch ag Engage heddiw a chael gostyngiad o 15% ar aelodaeth drwy ebostio info@engage.org a defnyddio'r cod DFG718. Mae'r cynnig yn ddilys tan ddydd Gwener 27 Gorffennaf 2018.

Telerau ac Amodau

Mae'r cynnig ar gael i aelodau newydd yn unig. Mae'r cynnig yn berthnasol i gyfraddau aelodaeth bersonol llawn (fel arfer yn £45, nawr £40) ac aelodaeth sefydliadol (fel arfer yn £79, nawr £71 ar

gyfer sefydliadol sengl; fel arfer yn £152, nawr £137 ar gyfer sefydliadol safonol ac fel arfer yn £214, nawr £192 ar gyfer sefydliadol uwch.) Nid yw'r cynnig yn gymwys i gyfraddau gostyngol. Ni ellir defnyddio'r gostyngiad hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig arall. Mae'r cynnig yn ddilys tan ddydd Gwener 27 Gorffennaf 2018.

I gael rhagor o wybodaeth am aelodaeth ewch i <https://engage.org/membership>, neu os oes gennych chi gwestiwn, ebostiwch info@engage.org neu ffonio 020 7729 5858.